Daeth tymor y bêl-droed i ben ddechrau Ebrill gyda'r bechgyn yn chwarae eu gêm olaf yn erbyn tîm Ysgol Padarn Sant. Ennill fu eu hanes a golyga hyn iddynt gyrraedd yr ail safle yn y gynghrair. Da iawn.

Prosiect yr ysgol am y tymor yma yw "Ein pentref ni". Os oes gan unrhyw un ddeunydd perthnasol, - lluniau, erthyglau, hanesion neu wybodaeth buaswn yn falch iawn ohonynt. Bydd unrhyw beth a dderbyniwn yn cael ei ddychwelyd yn ddiogel.

Ar ddechrau tymor arall croesawn ddisgyblion newydd i'n plith. Mae Danny Richards, Dylan Jenkins, a Michael Chapman yn hapus iawn yn nosbarth Mrs Williams. Croeso hefyd i Gareth McBride a ddaeth atom o Hull.